**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD GWENER, 17 IONAWR 2020**

**BWRDD STRYDLUN A PHEIRIANNEG Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: E.V.Latham a/ac A.Wingrave

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

M.Roberts, D.Griffiths, Mr. S Cook, H.Hasan, N.Headon a/ac N. Jones

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cyng. E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYNLLUN RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo Cynllun Rheoli Asedau'r Priffyrdd, fel y'i cynhwysir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Parhau â chynnydd y cyngor wrth ddatblygu Cynllun Rheoli Asedau'r Briffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

3. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

**Penderfyniadau:**

1. Cynnwys y cwmnïau canlynol at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:-

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| J Manny Ltd<br>Waters Roofing Ltd<br>Forest Traffic Services Ltd<br>Asbestos Consultants Europe Ltd | 21<br>17a-e<br>9<br>31 (Gwaith tirfesur yn unig) |

2. Tynnu'r cwmni canlynol oddi ar y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer y categorïau canlynol:-

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Jehu | 12, 13 |

3. Tynnu'r cwmnïau canlynol oddi ar y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:-

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Treforest Tiling Ltd<br>Granville Noise Insulators Ltd<br>Paul Jones-Domestic Energy Assessor<br>Reel (UK) Ltd<br>R M Electrics<br>Lappset UK Ltd | 178<br>21c, 111<br>111<br>21g, 111<br>41, 42, 43, 47, 48, 62, 68, 70<br>104 |

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

4. **GORCHYMYN/GORCHMYNION TRAFFIG: CIMLA**

**Penderfyniad:**

Rhoi cymeradwyaeth i hysbysebu'r Parth 20mya, Clustogau Arafu, Dim Aros, Dim Llwytho na Dadlwytho ar Unrhyw Adeg, Dim Mynediad ac Eithrio Bysus a'r Gorchymyn Un Ffordd ar y B4287 Heol Cwm Afan, Gerddi Ridgewood a Rhodfa Greenwood, Cimla, ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, cânt eu rhoi ar waith ar y safle.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Lleihau cyflymder cerbydau ac atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer gynghori pan gaiff y cynllun ei hysbysebu.

5. **GORCHYMYN/GORCHMYNION TRAFFIG: AMRYWIOL - CWMGWRACH**

**Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiadau'n rhannol a diwygio'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg a'r Gwaharddiad Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg ar Stryd Edward, Stryd yr Ysgol, Heol Nedd, Heol Fothergill, Heol Wenallt a Chefn Gelli, Cwmgwrach, Castell-nedd (fel y nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad a ddosbarthwyd) a'u rhoi ar waith ar y safle, a hysbysu'r gwrthwynebwyr yn briodol.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

1. Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

2. Cynorthwyo'r gweithredwr bysus i ddarparu ei wasanaeth i'r pentref.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

6. **GORCHYMYN/GORCHMYNION TRAFFIG: HEOL Y FELIN A'R STRYD FAWR, CWMGWRACH**

**Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiadau'n rhannol a diwygio'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg a'r Gwaharddiad Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg ar Heol y Felin a'r Stryd Fawr, Cwmgwrach, Castell-nedd (fel y nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad a ddosbarthwyd) a'u rhoi ar waith ar y safle, a hysbysu'r gwrthwynebwyr yn briodol.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

7. **GORCHYMYN/GORCHMYNION TRAFFIG: STRYDOEDD AMRYWIOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT - YSGOLION**

**Penderfyniadau:**

1. Gwrthod y gwrthwynebiad a rhoi'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar strydoedd amrywiol yng Nghastell-nedd Port Talbot (fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd) ar waith ar y safle, a hysbysu'r gwrthwynebwr yn briodol.

2. Adolygu'r parcio ar y stryd yn Heol Theodore, Port Talbot.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Atal parcio diwahaniaeth y tu allan i ysgolion er diogelwch y briffordd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

8. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**